
Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae cynnwys pobl mewn archwilio a mynd i'r afael â'u hamgylchiadau eu hunain yn rhan hanfodol o ymarfer gwaith cymdeithasol sy'n ymblethu drwy bob agwedd arall ar y rôl. Mae'n gofyn i weithwyr cymdeithasol ddefnyddio eu sgiliau a'u rhinweddau eu hunain i feithrin a chynnal ymgysylltiad, weithiau pan fyddant yn wynebu amharodrydd neu wrthwynebiad. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â safle canolog cyfathrebu a chreadigrwydd yn y cyd-destun hwn ac yn cydnabod potensial pobl i ddefnyddio eu dyfeisgarwch eu hunain i sicrhau newid.

SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

Meini prawf perfformiad

Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:

- P1 cynllunio sut i ddefnyddio cyfathrebu i sicrhau ymgysylltiad cychwynnol
- P2 defnyddio sgiliau cyfathrebu i feithrin y berthynas gwaith cymdeithasol
- P3 cynorthwyo pobl i ddarganfod ffyrdd effeithiol i gyfleu eu barn, eu hanghenion a'u hoffterau
- P4 datblygu dealltwriaeth pobl eraill o'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau chi a rhai'r sefydliad
- P5 cynorthwyo pobl i archwilio eu hamgylchiadau eu hunain, eu rhwydweithiau presennol ac adnoddau eraill sydd ar gael iddynt
- P6 annog pobl i gymryd rhan mewn darganfod ffyrdd creadigol i sicrhau newid
- P7 cydweithio â phobl eraill i fynd i'r afael ag unrhyw elyniaeth neu wrthwynebiad a wynebir
- P8 arfarnu effaith eich hun o ran cynnal ymgysylltiad a gweithio mewn partneriaeth
- P9 ceisio adborth gan bobl ar ba mor effeithiol y bu eich ymgysylltiad â nhw
- P10 addasu'r ffordd rydych yn datblygu ac yn cynnal ymgysylltiad yn dilyn myfyrio ac adborth

SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1 deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K2 codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K3 nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion
- K4 damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o ddatblygiad dynol a'r ffactorau sy'n effeithio arno
- K5 damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes
- K6 natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol
- K7 egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol
- K8 **ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol
- K9 eich cefndir, profiadau ac arferion eich hun a all effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol
- K10 egwyddorion asesu risg a rheoli risg
- K11 technegau datrys problemau a meddwl arloesol
- K12 egwyddorion rheoli gwrthdaro
- K13 natur gwrthdaro ac effaith ôl-gwrthdaro ar y gymdeithas
- K14 gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol
- K15 offer a fframweithiau asesu a chynllunio
- K16 gofynion ffurfiol ar gyfer prosesau cyfreithiol a phrosesau allanol eraill
- K17 cyd-destun diwylliannol ac ieithyddol yr unigolyn, y teulu, y grŵp neu'r gymuned
- K18 egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- K19 systemau, prosesau a gweithdrefnau eich sefydliad eich hun a

SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

- sefydliadau eraill, y gall unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau gymryd rhan ynddynt
- K20 amrywiaeth y cymorth a all fod ei angen i hybu cyfranogiad
- K21 mathau o niwed neu gamdriniaeth
- K22 dangosyddion niwed neu gamdriniaeth posibl
- K23 nodweddion cyffredin ymddygiad cyflawnwyr
- K24 dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd
- K25 grym a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu defnyddio er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- K26 potensial unigolion i ddefnyddio eu cryfderau a'u hadnoddau personol i gyflawni newid
- K27 gwerth a rôl rhwydweithiau teuluol, cymunedau a grwpiau o ran cyflawni canlyniadau cadarnhaol, a ffyrdd i'w datblygu
- K28 amrywiaeth yr adnoddau sydd ar gael o fewn rhwydweithiau anffurfiol, yn y gymuned ehangach, trwy ddarpariaeth gwasanaeth ffurfiol, a thrwy arloesedd
- K29 meini prawf cymhwyster ar gyfer gwasanaethau neu lifoedd ariannu
- K30 egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu
- K31 ffynonellau o adborth a all lywio myfyrio ar ymarfer a meddwl beirniadol

SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

Gwybodaeth Ychwanegol

Cwmpas/ystod

Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol

SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad

Gall **pobl** gynnwys unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau neu gymunedau

Bydd **amgylchiadau** yn cynnwys anghenion, amgylchiadau ehangach, risgiau cysylltiedig a goblygiadau'r rhain ar gyfer y bobl eu hunain ac eraill

Gall **adnoddau** fod yn adnoddau newydd neu bresennol gan unigolion, teuluoedd, rhwydweithiau personol, y gymuned ehangach neu grwpiau; gallant fod yn hunangyfeiriol neu gallant gael eu trefnu'n allanol; ffurfiol neu anffurfiol; gwirfoddol, preifat neu statudol; gallant fod yn gysylltiedig ag iechyd, hamdden, addysg, cyflogaeth neu dai; gallant fod yn bersonol, technolegol neu'n gyfreithiol. Gall fod angen cyfuno neu ddatblygu adnoddau mewn ffyrdd arloesol er mwyn sicrhau canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Gall **polisiau** gynnwys rhai sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau

Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd

SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

Gwerthoedd

Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy'n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a'r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt

Sgiliau

- 1 Cynllunio camau gweithredu i gyflawni canlyniadau canfyddedig
- 2 Rheoli galw ar eich amser eich hun i flaenoriaethu'r hyn sy'n bwysig, yn ogystal â'r hyn sydd angen ei wneud ar frys
- 3 Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy
- 4 Addasu cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd
- 5 Hwyluso defnydd pob unigolyn o iaith a dull cyfathrebu dewisol
- 6 Cynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- 7 Gweithio'n effeithiol gyda'r rheiny sydd â safbwyntiau neu werthoedd sy'n gwrthdaro â'ch rhai chi
- 8 Trafod gydag eraill i gyflawni cytundeb mewn sefyllfaoedd cymhleth
- 9 Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth
- 10 Cymhwyso meddwl creadigol i ddatrys problemau cymhleth
- 11 Llunio barn broffesiynol ynghylch sefyllfaoedd cymhleth
- 12 Defnyddio eich sgiliau rhyngpersonol a sgiliau a gwybodaeth arall fel adnodd
- 13 Cymhwyso ymagweddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- 14 Cydbwysu canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn â lles pobl eraill
- 15 Llunio cofnodion ac adroddiadau sy'n bodloni safonau proffesiynol
- 16 Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth
- 17 Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i'ch gwybodaeth neu'ch profiad chi
- 18 Cymhwyso meddwl beirniadol er mwyn myfyrio ar eich ymarfer eich hun
- 19 Cyfosod gwybodaeth ac ymarfer

Cysylltiadau â SGC eraill

Mae'r SGC hon yn cysylltu â phob SGC Gwaith Cymdeithasol arall.

SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

Cysylltiadau Allanol

Mae'r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy'n berthnasol i weithwyr cymdeithasol.

SCDSW9

Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

Datblygwyd gan Sgiliau Gofal a Datblygu

Rhif y fersiwn 1

Dyddiad cymeradwyo HYDREF 2011

Dyddiad adolygu mynegol EBRILL 2014

Dilysrwydd CYFREDOL

Statws GWREIDDIOL

Sefydliad gwreiddiol Sgiliau Gofal a Datblygu

URN gwreiddiol SW9

Galwedigaethau perthnasol Gweithiwr Cymdeithasol

Cyfes Gwaith Cymdeithasol

Allweddeiriau cynnwys; pobl